## Amddiffyn Plant mewn Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Mai 2024

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau am reoli diogelu ac amddiffyn plant ar draws y gwasanaeth addysg y mae'n ei ddarparu, ac yn ei gomisiynu?

*A oes polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad clir gan yr awdurdod lleol sy'n cwmpasu ei gyfrifoldebau am ddiogelu plant yn y gwasanaethau addysg y mae'n eu darparu neu'n eu comisiynu?*

*Pa mor dda y mae'r polisïau yn adlewyrchu'r model yng Nghylchlythyr 158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel drwy gynnwys adrannau ar:*

- *atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr?*
- *gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuaeth o achosion, o gam-drin?*
- *chymorth i ddysgwyr y gallant fod wedi cael eu cam-drin?*

*A yw polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad yn cael eu hadolygu bob blwyddyn?*

---

Mewn partneriaeth â holl adrannau'r Cyngor mae'r Adran Addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau am reoli diogelu ac amddiffyn plant ar draws y gwasanaeth addysg.

Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu Corfforaethol yn cael eu cyd gynllunio eu monitro a'u harfarnu'n rheolaidd gyda mewnbwn rheolaidd yr Adran Addysg.

Mae Diogelu yn eitem reolaidd ar raglen y Tîm Rheoli Addysg gan roi llwyfan rheolaidd i ystyried materion strategol yn y maes.

Mae prosesau atebolrwydd clir mewn lle gyda'r Adran Addysg yn chwarae rôl allweddol yn y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ac yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion.

Mae Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn adrodd ar berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio a'r Polisi a Chanllawiau Corfforaethol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn sicrhau mewnbwn yr Adran Addysg i faterion strategol. Mae'n cynrychioli'r Adran a chynnig arweiniad mewn cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol, ar lefel awdurdod ac mewn is grwpiau perthnasol. Mae'n cyflwyno adborth rheoliad o'r cyfarfodydd i sylw'r Pennaeth Addysg ac yn cynrychioli a chyfrannu'n llawn mewn adolygiadau ymarfer plant yn rhanbarthol yn ôl y galw.

Mae swyddogion yr Adran Addysg yn chwarae rôl weithredol ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Grŵp Diogelu Addysg Cenedlaethol.  Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn cyflwyno eitemau i raglen y Tîm Rheoli Addysg gan roi llwyfan i ystyried y prif faterion strategol yn y maes.

Mae'r Adran Addysg yn sicrhau fod pob ysgol yn cyflwyno Adroddiadau Diogelu Blynyddol i'r Corff Llywodraethu ac mae cynnwys yr adroddiadau'n cael eu gwirio drwy ymweliadau gwirio ansawdd.

Mae'r Adran Addysg yn darparu polisïau safonol sydd yn adlewyrchu'r model yng Nghylchlythyr Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020. Mae'r polisïau yn cynnwys adrannau ar:

- atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr
- weithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuaeth o achosion, o gam-drin
- cymorth i ddysgwyr y gallant fod wedi cael eu cam-drin

Diweddarir y polisïau'n flynyddol gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg. Cyfrifoldeb yr ysgolion ydi personoli'r polisïau safonol gyda'r manylion sydd yn benodol ar eu cyfer.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn rhannu arfer dda neu'n amlygu ffyrdd amgen o weithredu'n effeithiol yn rheolaidd.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn cynnal ymweliadau monitro ansawdd ar gais ysgolion neu ar hap er mwyn gwirio'r hyn adroddwyd arno yn yr Adroddiadau Diogelu Blynyddol i'r Corff Llywodraethu gan gynnwys eu polisïau a gweithdrefnau diogelu. Darperir adroddiad wedi'r ymweliadau yma gydag argymhellion yn sail i gynlluniau gwella'r ysgol yn y maes.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn gweithio'n agos a swyddogion o Wasanaethau Plant i adnabod tueddiadau a risgiau yn y maes gan rannu negeseuon allweddol yn amserol efo'n darparwyr gwasanaethau addysg. Yn ogystal mae'r gwaith partneriaethol yma wedi arwain at addasu hyfforddiant a gyflwynir.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ynghyd a Phennaeth Cynorthwyol Addysg ar gael i ddarparu

cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion. Darperir cyngor o ran prosesau a chynhaliaeth broffesiynol lle'n briodol i rai sydd yn delio ac achosion cymhleth a heriol.

Mae Polisi Diogelu cynhwysfawr sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol yn cael ei rannu ar gychwyn y flwyddyn addysgol gyda'n darparwyr. Mae'r polisi'n amlygu'n glir cyfrifoldebau, diffiniadau o gamdriniaeth a chysylltiadau'r Awdurdod yn y maes.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn cadw'r polisi'n gyfredol gan ystyried arweiniad cenedlaethol neu arweiniad y Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru lle'n briodol cyn ei adolygu'n flynyddol.

Yn ychwanegol i'r Polisi Diogelu darperir ystod lawn o bolisïau amrywiol eraill sydd yn ymwneud a'r maes diogelu. Mae'r rhain yn cynnwys;

- iechyd a diogelwch, ataliaeth/ffrwyno, bwlio;
- tripiau ysgol, cludo disgyblion, ymweliadau preswyl, ymweliadau cyfnewid rhwng ysgolion;
- cyflogi plant, profiad gwaith;
- tynnu lluniau a defnyddio lluniau o blant;
- disgyblion heb le mewn ysgol;
- cawodydd a threfniadau newid;
- rhieni a helpwyr gwirfoddol eraill;
- cymorth cyntaf a gweinyddu meddyginiaethau;
- trefniadau ar gyfer clybiau ar ôl ysgol;
- defnyddio'r rhyngrwyd;
- plant gyda rhieni/gofalwyr sy'n dioddef o salwch meddwl neu anabledd;
- plant gyda rhieni/gofalwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau; a
- phlant mewn ysgolion preswyl y tu allan i'r awdurdod lleol

Sicrheir fod y polisïau wedi eu mabwysiadu drwy'r Adroddiad Diogelu Blynyddol i'r Corff Llywodraethu a'r ymweliadau gwirio ansawdd.

Darperir arweiniad ar gyfer paratoi ar gyfer gwahanol rannau o'r broses ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar baratoi adroddiadau ar gyfer cynadleddau achos a grwpiau craidd.

Mae'r Adran Addysg yn cydweithio'n effeithiol â'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth er mwyn sicrhau fod yr adran yn diogelu plant sydd allan o addysg prif lif yn unol â'r canllawiau drwy;

- Ddiogelu a hybu lles plant sydd heb gael lle mewn ysgol, neu sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys rhai sy'n cael eu dysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion neu gan y gwasanaeth tiwtoriaid cartref.

- O ran plant sy'n cael eu dysgu gartref gan rieni neu ofalwyr, meithrin perthynas effeithiol gyda'r sawl sy'n addysgu gartref i ddiogelu budd addysgol a lles plant a phobl ifanc

Mae'r cyd weithio wedi ei selio ar gyd ddealltwriaeth drylwyr o'r gweithdrefnau diogelu a chyfrifoldebau sydd yn gysylltiedig â'r maes. Darperir hyfforddiant i staff y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gan Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg bob dwy flynedd.

Mae'r Adran Addysg yn sicrhau cyfres gynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer yr ystod o *wasanaethau addysg*. Mae'r hyfforddiant wedi ei deilwrio ar gyfer anghenion darparwyr ac wedi ei dargedu ar lefel sydd yn addas ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd.

Darperir yr hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaethau addysg mewn grwpiau bychan gan sicrhau amser i fyfyrio a chwestiynu.

Mae hyfforddiant diogelu'n fandadol i holl staff y Cyngor ac mae % staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau yn cael ei adrodd arno yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion.

Mae'r modiwlau hyfforddi canlynol yn fandadol i holl staff y cyngor ac yn gysylltiedig â'r maes diogelu.

- Diogelu Sylfaenol
- Caethwasiaeth Fodern
- Atal
- Diogelu
- Trais yn erbyn Menywod
- Cam-drin Domestig
- Thrais Rhywiol

Mae’r modiwlau’n sicrhau dealltwriaeth ar lefel briodol ar gyfer holl staff y Cyngor. Mae ymgyrchoedd rheolaidd i sicrhau fod diogelu yn flaenoriaeth i holl staff y cyngor. Mae staff yr Adran Addysg yn derbyn hyfforddiant i lefel person dynodedig er sicrhau dealltwriaeth drylwyr o anghenion darparwyr addysg.

Mae’r polisïau Corfforaethol i’w gweld ar fewnrwyd y cyngor ac mae’n fandadol fod staff yn darllen a deall y cynnwys. Amlygir i reolwyr staff nad ydynt wedi cwblhau’r gwaith o adolygu’r polisïau yma.

- Polisi Diogelu
- Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod

---

***A yw’r awdurdod lleol yn darparu arweiniad clir i bob un o’i ddarparwyr gwasanaethau addysg, gan gynnwys ei ysgolion, ynglŷn â pholisïau amddiffyn plant sy’n adlewyrchu’r model yng Nghylchlythyr 158/2015 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel gan gynnwys cyngor ar:***

- ***y gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuaeth o achosion, o gam-drin? a***
- ***chymorth i ddysgwyr y gallant fod wedi cael eu cam-drin?***

---

Mae’r awdurdod lleol yn darparu arweiniad clir i bob un o’i ddarparwyr gwasanaethau addysg, gan gynnwys ein hysgolion, ynglŷn â pholisïau amddiffyn.

Mae’r awdurdod yn sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant a phobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecsploetiaeth.

Mae'r Cyngor yn arddel ei rôl a'i gyfrifoldebau i roi arweiniad pendant i Aelodau'r Cyngor, staff, gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaeth a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn. Mae diogelu yn fusnes i bawb o fewn y Cyngor, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion, gwaeth beth yw rôl yr unigolyn.

Mae Polisi a Chanllawiau diogelu’r Cyngor wedi eu selio ar yr amcanion canlynol;

- i amlygu'r modd y bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y maes diogelu plant ac oedolion
- i roi sicrwydd i Aelodau'r Cyngor, aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff a gwirfoddolwyr sydd yn gweithio ar ran y Cyngor, bod trefniadau clir yn eu lle i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion
- bod Aelodau'r Cyngor, staff, gwirfoddolwyr ac eraill sydd yn gweithio ar ran y Cyngor gyda chanllawiau eglur i'w dilyn pan fo pryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn mewn risg o niwed

Mae bob amser yn annerbyniol i blentyn neu oedolyn gael ei gam-drin neu gael niwed o unrhyw fath. Adlewyrchir hyn yn yr egwyddorion sy'n sail i'r Polisi a Chanllawiau:

- mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo eu cefndir, diwylliant, oed, anabledd, rhyw, tarddiad hiliol, cred grefyddol) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, ecsploetiaeth, bwlio na gwahaniaethau
- mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, cam-fanteisio a chamdriniaeth
- byddwn fel Cyngor yn rhoi lles plant ac oedolion yn ganolog i ein polisïau ac ein gweithdrefnau
- byddwn fel Cyngor yn gweithio yn agos mewn partneriaeth a phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion
- byddwn fel Cyngor yn parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion trwy wrando arnynt a lleihau i'r eithaf unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt
- byddwn fel Cyngor yn buddsoddi mewn gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar, gan geisio osgoi sefyllfaoedd ble gallai camdriniaeth neu honiadau o gamdriniaeth neu niwed ddigwydd

Mae cyfrifoldeb ar bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ar gytundeb i weithredu yn unol â Chanllawiau a'r arweiniad a nodir yn y polisi.

Mae disgwyliadau’r awdurdod o’r darparwyr gwasanaethau addysg yn cael ei ddal yn yr ystod o hyfforddiant a ddarperir. Mae’r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn sicrhau bod staff yr Awdurdod sy’n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant i’w harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol. Mae’n gwneud hyn drwy;

- Baratoi ac adolygu’n flynyddol becyn hyfforddiant i staff yr adran addysg.
- Baratoi ac adolygu yn flynyddol becyn hyfforddiant i berson/au dynodedig, Pennaeth, a pherson dynodedig pob Corff Llywodraethol gan ei addasu a’i gadw’n gyfredol mewn cylch tair blynedd.

- Paratoi ac adolygu'n flynyddol becyn hyfforddiant er mwyn i'r person/nau dynodedig ei gyflwyno i weddill staff yr Ysgol yn flynyddol.
- Yn unol â chanllawiau gwirio addasrwydd yr hyfforddiant yn flynyddol drwy'r Bwrdd Diogelu.
- Datblygu dulliau cyflwyno hyfforddiant yn barhaus er mwyn cyfarch anghenion y defnyddwyr wrth sicrhau ansawdd y cynnwys.

Mae'r rhaglen hyfforddi wedi ei newid yn Medi 2023 o gylch tair blynedd i ysgolion i gylch dwy flynedd, hyn yn cyd-fynd ar arferion gorau yn y maes.

Mae'r hyfforddiant yn galluogi personau dynodedig i ddarparu hyfforddiant i weddill staff yr ysgol ac fe ddarperir adnoddau diwygiedig yn flynyddol i'w cefnogi.

Darperir yr hyfforddiant mewn grwpiau bychan er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i'r hyfforddai gwestiynu a thrafod ymhellach.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn darparu hyfforddiant safonol i ystod eang o wasanaethau tu allan i ysgolion gan gynnwys;

- Addysg y blynyddoedd cynnar
- Gwasanaeth Cerdd
- Gyrwyr tacsi

Mae gwaith ataliol yn rhan allweddol o becyn hyfforddiant yr awdurdod. Mae sylw penodol i rôl yr ysgol mewn ymateb i bryderon a'r cyfrifoldeb sydd ar bawb i sicrhau'r gorau ar gyfer ein dysgwyr.

Mae arweiniad clir ar yr angen i fod yn cofnodi pryderon diogelu. Mae mwyafrif ysgolion Gwynedd yn gwneud defnydd o feddalwedd i wneud hyn yn dilyn arweiniad yr awdurdod. Mae cydweithio agos rhwng Rheolwr y Tîm Derbyn a'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn golygu fod unrhyw wendidau mewn cyfeiriadau o ran pa mor amserol ydynt neu fanylder y cofnodi blaenorol yn derbyn sylw prydlon. Mae'r drefn o wirio ansawdd hefyd yn sicrhau fod ysgolion yn cadw cofnod o bryderon mewn ffordd addas ac amserol.

Drwy gyd weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn sicrhau fod yr adran yn diogelu plant sydd allan o addysg prif lif yn unol â'r canllawiau.

Mae'n diogelu a hybu lles plant sydd heb gael lle mewn ysgol, neu sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys rhai sy'n cael eu dysgu mewn unedau o fewn ysgolion neu gan y gwasanaeth tiwtoriaid cartref. O ran plant sy'n cael eu dysgu gartref gan rieni neu ofalwyr, mae'n meithrin perthynas effeithiol gyda'r sawl sy'n addysgu gartref i ddiogelu budd addysgol a lles plant a phobl ifanc.

Y Gwasanaeth Lles Addysg sydd yn monitro data presenoldeb mewn partneriaeth a'r ysgolion. Mae achosion o bryder yn cael eu hadnabod yn gynnar a thrwy hyn mae'r risgiau diogelu'n cael eu lleihau.

Mae trefn gytunedig ar gyfer dadgofrestru dysgwyr sydd am gael ei addysgu gartref sydd yn cynnwys swyddogion lles. Yn ychwanegol i hyn mae athrawon oddi mewn i'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar gael i gynnal a sicrhau diogelwch y garfan benodol yma.

Mae ysgolion Uwchradd Gwynedd yn derbyn grant cynhwysiad sydd yn eu galluogi i strwythuro ei darpariaeth gynhwysiad ei hunain. Darperir cynhaliaeth a chymorth i ddysgwyr bregus yn y darpariaethau yma.

Mae ystod o wasanaethau arbenigol yn rhoi cymorth i ddysgwyr y gallant fod wedi cael eu cam-drin. Mae modd i'r ysgolion gael mynediad uniongyrchol i'r ddarpariaeth drwy gysylltu â'r gwasanaethau unigol neud drwy gysylltu â Gwasanaeth Teuluoedd Gwynedd all ddarparu cyngor ar y gwasanaethau mwyaf addas.

Mae'r awdurdod yn rhan o gynllun Encompass lle mae gwybodaeth am achosion lefel risg isel a chanolig o drais yn y cartref yn cael ei ddwyn i sylw ysgolion yn brydlon gan ganiatáu i'n hysgolion fod yn fwy parod i gefnogi'r plant. Ar gyfer achosion lefel risg uchel o drais yn y cartref trafodir hwynt yn fisol mewn cynhadledd asesu risg aml asiantaethol (MARAC). Mae cynlluniau diogelu sydd yn deillio o'r cynadleddau yma'n cael eu trafod a'i datblygu'n bellach gyda'r ysgolion.

Mae Tîm Derbyn Cyfeiriadau Plant yn sicrhau fod gwybodaeth allasai fod o fudd i'r ysgol gefnogi'r disgybl yn cael ei rannu.

---

*A oes gan yr awdurdod lleol unigolyn dynodedig ar gyfer rheoli a goruchwylio materion amddiffyn a diogelu plant mewn addysg?*

*Os oes, rhowch y manylion cyswllt a gwybodaeth reoli.*

*Pa werth ychwanegol a ddaw yn sgil y swydd hon at reoli diogelu ac amddiffyn plant yn narpariaeth addysg yr awdurdod lleol?*

---

Mae gan yr Adran Addysg Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg sydd yn rheoli a goruchwylio materion amddiffyn a diogelu plant mewn addysg yn effeithiol. Mae'r swyddog yn dylanwadu ar waith yr adran.

*Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg*

Bethan Helen Jones

BethanHelenJones@gwynedd.llyw.cymru

07977504344

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod staff yr Awdurdod sy'n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant i'w harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol
- Sicrhau fod gan yr adran ac Ysgolion Gwynedd bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ac addas
- Sicrhau fod yr adran yn diogelu plant sydd allan o addysg prif lif yn unol â'r canllawiau
- Sicrhau mewnbwn yr Adran Addysg i faterion Strategol diogelu
- Sicrhau fod yr Adran Addysg ac Ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio a chanllawiau sydd wedi ei mabwysiadu
- Sicrhau cyngor a chefnogaeth briodol i ysgolion ac i staff yr Adran Addysg
- Sicrhau fod yr Adran Addysg ac Ysgolion Gwynedd yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allweddol
- Sicrhau fod y gwasanaeth yn rhan o broses o welliant parhaus
- Cynrychioli'r Adran ar y Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor
- Sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol i ymdrin â phryderon o fewn yr Adran, gan weithio yn agos gyda Gwasanaethau Cymdeithasol er cyflawni hyn
- Weithredu fel ffynhonnell allweddol i roi cyngor a chefnogaeth i staff eraill yn yr Adran ar holl faterion diogelu

Yn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg dirprwyir y cyfrifoldeb i un o'r Penaethiaid Cynorthwyol Addysg.

Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn mesuryddion allweddol sydd yn cynnwys, % DBS a % staff a llywodraethwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol. Mae hyn yn rhan o'n prosesau herio perfformiad adrannol.

Ar lefel Gorfforaethol mae'r cyfrifoldeb am ddiogelu yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Arweiniol Plant a Phobl Ifanc)**

Huw Dylan Owen

DylanOwen@gwynedd.llyw.cymru

01286 679227

---

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael ag anghenion diogelu penodol plant unigol, ac yn benodol, plant sy'n derbyn gofal, yn ychwanegol at y rhai a nodwyd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol sy'n gysylltiedig â'i ddarpariaeth addysg?*

---

Mae'r awdurdod yn mynd i'r afael ag anghenion diogelu penodol plant unigol, ac yn benodol, plant sy'n derbyn gofal. Mae'r hyfforddiant a ddarperir i staff sydd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn amlygu'r grwpiau penodol sydd yn fwy agored i niwed. Mae'r gweithlu addysg ac ymwybyddiaeth dda o'r heriau penodol sydd yn wynebu'r dysgwyr yma .

Darperir polisi penodol ar gyfer addysg plant mewn gofal sydd yn amlygu trefniadau pendant er mwyn cefnogi'r garfan benodol yma o ddysgwyr. Mae'r polisi yn amlygu'r angen i bob ysgol enwebu aelod o staff ac aelod o'r Corff Llywodraethol i fod yn arwain ar agweddau penodol ymhob ysgol.

Mae'r adran addysg wedi addasu ei strwythur staffio i gynnwys Pennaeth Cynorthwyol: Llesiant a Chydraddoldeb sydd yn arddel rôl Pennaeth Rhithwir yn ychwanegol i'r Swyddog Cyswllt Addysg presennol ar gyfer plant mewn gofal. Mae'r awdurdod a gafael cadarn mewn ansawdd profiadau addysgol Plant Mewn Gofal ac wedi adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud dros y blynyddoedd diweddar i lunio cynlluniau addysg unigol digidol i bob un o'n plant mewn gofal.

Mae'r Pennaeth Rhithwir yn monitro cynlluniau unigol a chynnydd disgyblion a lle'n briodol cyfeirio'r ysgolion at wasanaethau arbenigol er mwyn eu grymuso. Gall y rhain fod yn wasanaethau mewn meysydd megis anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiad neu wasanaethau neu gefnogaeth benodol gan wasanaethau plant a thu hwnt. Yr ydym wedi ymrwymo i blethu'r rôl hon i weithrediad ystod o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau plant, gwasanaethau cyfiawnder, ieuenctid i enwi dim ond ychydig.

Yn ddiweddar bu i'r Cyngor gynnal adolygiad ar y cyd rhwng Gwasanaethau Plant ac Addysg gan roi sylw penodol i brofiadau ein plant a phobl ifanc mwyaf bregus. Mae'r rôl hon yn plethu'n hwylus a'r gwersi a ddysgwyd wedi'r adolygiad ar hyn yr ydym yn awyddus i'w ddatblygu fel gwasanaethau i blant a phobl ifanc Gwynedd yn sgil y gwaith.

Dros y 12 mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal i gefnogi'r amcan hwn. I ddechrau, dosbarthwyd yr arian hwn yn uniongyrchol i ysgolion ond yn fwy diweddar i Gonsortia Addysg Rhanbarthol er mwyn sicrhau defnydd mwy strategol. Yr ydym wedi cynllunio i'r Pennaeth Rhithwir fod ag elfen o reolaeth dros y grant hwn yng Ngwynedd gyda'r bwriad o rymuso'n bellach y defnydd strategol o'r grant ac ein galluogi i dargedu anghenion unigolion yn unol â'r galw.

Mae'r Pennaeth Rhithwir yn llunio cynllun busnes yn flynyddol yn unol â threfn yr awdurdod. Bydd y cynllun hwn yn blaenoriaethu'r agweddau sydd angen y sylw er mwyn gwella deilliannau addysg. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei fonitro yn unol â threfn rheoli perfformiad yr awdurdod ac yn ogystal bydd adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu rhoi ger bron y Panel Rhiant Corfforaethol.

Mae prosesau comisiynu lleoliadau yn cael ei arwain drwy'r Panel Lleoliadau sy'n cael ei arwain gan Wasanaethau Plant. Mae'r panel yn cyfarfod yn ac mae trefniadau cadarn aml asiantaeth ar waith gyda ffocws ar brofiadau'r dysgwyr.

Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol yn cyfarfod yn dymhorol o dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Mae aelodau eraill y panel yn cynnwys Aelodau Etholedig, y Cyfarwyddwr Addysg, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth yr Adran Dai .

Mae cynllun addysg unigol wedi ei greu a'i leoli ar system electroneg a luniwyd gan yr adran addysg yng Ngwynedd. Mae'r system yn llwyfan i waith aml asiantaeth effeithiol ac yn sicrhau fod gan bawb gyfle i gyfrannu at wella'r gefnogaeth addysg ar gyfer plant mewn gofal.

Mae cefnogaeth drwy'r gwasanaeth ieuenctid ar gyfer i gefnogi plant sy'n cael hi'n anodd ymgysylltu a bod yn a dod yn debygol o fod yn NEETS. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n agos a nifer o bartneriaid allweddol gyda'r cynlluniau wedi ei amlygu yn ein fframwaith ymgysylltu.

Mae gan yr awdurdod athrawon arbenigol profiadol sy'n arwain darpariaethau i ysgolion i gyfarch anghenion plant sydd â Saesneg yn Iaith Ychwanegol, plant ethnig, teithwyr a sipsiwn. Darperir y gwasanaeth hwn mewn partneriaeth â Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd a Môn. Mae mynediad i'r darpariaethau yma yn cael ei reoli drwy'r gwasanaeth cynhwysiad.

---

## Ymdrin â honiadau yn erbyn staff

*A yw'r awdurdod lleol yn cyfeirio ac yn adrodd pob digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig i gyfarfod strategaeth broffesiynol?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r arweiniad ar gyfer ymdrin â materion disgyblaethol staff yn dilyn honiadau o'r fath?*

---

Mae polisi diogelu yn amlygu'n glir y camau sydd angen eu dilyn pan fod digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig mewn unrhyw un o'n gwasanaeth addysg. Mae'r prosesau yma'n derbyn sylw penodol mewn hyfforddiant ar gyfer personau dynodedig ac mewn hyfforddiant gloywi ar draws y gwasanaethau.

Darperir cefnogaeth barhaus i'n darparwyr pan fo digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg, Swyddogion Addysg a Swyddogion Adnoddau Dynol yr awdurdod. Mae'r gefnogaeth yn gydlynol ac yn sicrhau fod buddiannau a lles pawb, gan gynnwys y rhai sydd yn cyfeirio, yn cael eu gwarchod.

Mae'r Swyddogion Adnoddau Dynol yn cefnogi Cyrff Llywodraethol i ddod i benderfyniad atal unigolyn o'r gwaith gan sicrhau cysondeb a chywirdeb y penderfyniadau yma'n draws awdurdod.

Darperir polisi diogelu enghreifftiol a hyfforddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth darparwyr o'r maes ynghyd a chefnogaeth weithredol barhaus i arweinyddion ar bob lefel i ddelio'n gywir a digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig.

Mae'r awdurdod yn darparu cefnogaeth i unigolion sydd yn destun pryder yn sgil digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig. Mae'r Swyddogion Adnoddau Dynol yn gyswllt rheolaidd i'r unigolion yma ynghyd a chynhaliaeth emosiynol iddynt. Darperir ystod o wasanaethau cefnogol ychwanegol er mwyn gofalu am eu lles emosiynol a meddyliol yn ol y galw.

## Recriwtio diogel

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â'i gyfrifoldebau ar gyfer recriwtio diogelu trwy wiriadau hunaniaeth a chymwysterau cyn-cyflogi ar gyfer staff yr awdurdod lleol, ac ar gyfer holl staff ysgolion (gan gynnwys unrhyw rai a gaiff eu recriwtio a'u talu'n uniongyrchol drwy'r ysgol)?*

*A oes cofnod bod pob aelod o staff a benodwyd ar ôl 2002 wedi cael gwiriad y SCT/GDG?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod cofnod o ba lywodraethwyr sydd â gwiriadau diweddar y SCT/GDG, ac asesiadau risg ar gyfer y rhai nad yw'r gwiriadau ganddynt?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod ei wasanaethau addysg yn cynnwys asesiadau risg cadarn ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n gweithio dan oruchwyliaeth mewn lleoliadau addysg, ac sy'n nodi meini prawf yn glir ar gyfer p'un a oes angen gwiriad gan y SCT/GDG arnynt ai peidio?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn gwybod pa wirfoddolwyr sy'n gweithio yn ei leoliadau addysg ar sail fynych neu ddwys sy'n meddu ar wiriadau diweddar y SCT/GDG?*

---

Mae trefn benodi'r awdurdod wedi ei selio ar hanfodion recriwtio diogel ac wedi diffinio'n glir yn ein polisi recriwtio diogel.  Mae pob penodiad yn cael ei wneud ar ôl derbyn tystiolaeth gan gyflogwyr blaenorol ar ffurf geirdaon ac ar gyfer swyddi lle mae'n rhaid derbyn dadleniad yna ni chaiff y gweithiwr gychwyn mewn swydd hyd nes y bydd DBS mewn lle.

Mae rhestr gyflawn o weithlu gwasanaethau addysg sydd angen gwiriad ar gael yn ganolog. Mae canrannau DBS pob adran yn cael eu trafod yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion gan roi cyfle i ni fod yn adnabod unrhyw rwystrau ar lefel gorfforaethol.

Mae bas data addas o'r gwiriadau angenrheidiol ar gyfer cyrff llywodraethol pob ysgol. Mae'n ofynnol ar i bob aelod o'r corff gael gwiriad yng Ngwynedd.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd am swydd gyda phlant neu oedolion yng Ngwynedd ateb cwestiwn diogelu safonol. Mae'r cwestiwn yn dyrchafu statws diogelu ac yn sicrhau fod pawb sydd yn cael eu benodi i weithio yma a lefel briodol o ddealltwriaeth yn y maes.

Mae'r Ganolfan Fusnes Addysg a'r Uned Cyflogau a Chontractau Addysg yn monitro'r prosesau'n  barhaus gan adrodd ar unrhyw ddiffygion i sylw'r ysgolion a thîm rheoli'r adran addysg.

Darperir trefn o wirio addasrwydd athrawon llanw ar gyfer ein hysgolion. Mae athrawon llanw sy'n cael eu hargymell ar restr gyfredol wedi derbyn gwiriad am eu haddasrwydd i ymgymryd i weithio gyda phlant ac mae'r rhestr yn cael ei rheoli gan yr Uned Gontractau. Mae hyn yn lleihau baich ar ysgolion wrth chwilio am athro/athrawes lanw mewn argyfwng.

Mae polisi gwirfoddolwyr addas mewn lle sydd yn darparu arweinid clir p'un a oes angen gwiriad arnynt ai peidio.

Mae'r Awdurdod yn prosesu ceisiadau DBS drwy system e-Bulk. Mae prosesu gwiriad yn cymryd  llai nag wythnos ar gyfartaledd.

- Polisi recriwtio diogel
- Defnydd Gwirfoddolwyr
- Polisi recriwtio a Phenodi
- Gweithdrefn Recriwtio a Phenodi
- Polisi Recriwtio Diogel Ysgolion

## Hyfforddiant diogelu

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol a'r BLlDP yn sicrhau'r canlynol:*

- *bod pob aelod o staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio mewn darpariaeth addysg wedi cael hyfforddiant diogelu wedi'i gymeradwyo gan y BLlDP a'u bod yn cael hyfforddiant mewn modd amserol?*
- *bod staff dynodedig yn cael eu hyfforddi mewn gweithio rhyngasiantaethol?*
- *bod pob aelod o staff dros dro a gwirfoddolwyr yn cael gwybod am bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant?*
- *bod pob un o'r staff yn cael gwybodaeth ddiweddar trwy gyrsiau gloywi rheolaidd? a*
- *bod yr holl hyfforddiant yn parhau'n briodol ac yn gyfoes trwy arfarnu rheolaidd a chadarn?*

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i sicrhau fod holl staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth Diogelu Cyffredinol priodol.

Mae pob aelod staff sydd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac/neu oedolion yn cael gwybodaeth ar faterion diogelu er mwyn sicrhau fod ein gweithlu plant a phobl ifanc yn:

- ymwybodol o egwyddorion diogelu
- medru adnabod yr angen i gyfeirio
- gwybod sut i ymdrin ag achosion unigol, yn unol â'u rôl

Mae pob aelod staff sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion yn derbyn hyfforddiant ac a mynediad i wybodaeth ar faterion diogelu. Mae'r hyfforddiant yn gwneud gweithwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng diogelu ac amddiffyn plant / oedolion. Mae hefyd yn gwneud gweithwyr yn ymwybodol o'r diffiniad o'r mathau o gam-drin sy'n digwydd i blant, pobl ifanc ac oedolion, y prif arwyddion a dangosyddion, goblygiadau i staff a'u cyfrifoldeb personol am ddiogelu plant ac oedolion a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd gan unrhyw weithiwr bryderon.

Mae'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu Cyffredinol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer holl ystod y maes diogelu, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ddiogelu plant, diogelu oedolion agored i niwed, gwrth-radicaleiddio a chamdriniaeth ddomestig.

Mae maes llafur hyfforddiant Diogelu ar gyfer ysgolion yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Pholisi Diogelu Ysgolion. Darparwyd hyfforddiant i'r holl weithlu addysg i gyd-fynd â'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau. Yn ogystal â hyn, cyflwynir yn flynyddol sesiynau hyfforddiant Diogelu ar gyfer athrawon ANG Gwynedd a Môn.

Gall ysgolion ofyn ar unrhyw amser am hyfforddiant diogelu ac mae modd diwallu'r angen o fewn 10 diwrnod gwaith.

Adolygwyd hyfforddiant Diogelu ar gyfer llywodraethwyr yn ddiweddar a bellach mae'r modiwl hyfforddiant Diogelu i Lywodraethwyr yn cael ei gynnal ar lein. Mae hyn yn sicrhau presenoldeb mwy o Lywodraethwyr yn yr hyfforddiant ac mae'r adborth o ran y cynnwys wedi bod yn gadarnhaol. Yr ydym yn darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i'r rhai sydd yn gofyn amdano.

Yn yr un modd, darparir sesiwn hyfforddiant Diogelu i'r sector nas gynhelir ac mae hyn yn ychwanegol i beth sy'n cael ei gynnig gan y Mudiad Meithrin.

Mae'r hyfforddiant Diogelu ar draws yr haenau'n canolbwyntio ar waith ataliol ac adnabod arwyddion yn gynnar.

Mae hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gyflwyno ar gyfer ateb y gofynion Gofyn a Gweithredu.

Mae gan ysgolion, staff y Gwasanaeth Ieuenctid, a'r sector nas gynhelir ddealltwriaeth gadarn bod angen gwneud cyfeiriad os oes unrhyw amheuaeth bod plentyn yn agored i niwed. Yn yr un modd, maent hefyd yn ymwybodol y gellir gwneud cais am gymorth ymyrraeth gynnar gan dîm teulu Gwynedd.

Mae Polisi Gwirfoddolwyr corfforaethol y Cyngor yn nodi mai cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau bod hyfforddiant am Ddiogelu'n cael ei gyflwyno i'w gwirfoddolwyr.

Mae Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn adolygu pob agwedd o'r hyfforddiant yn y maes hwn yn rheolaidd.

---

### Diogelwch a lles plant mewn gwasanaethau addysg awdurdodau lleol

*Pa mor glir a chadarn yw polisïau ac arweiniad yr awdurdod lleol sy'n mynd i'r afael â gwrth fwlio, cam-drin hiliol, gwahaniaethu ac aflonyddu?*

*A ydynt yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn monitro'r digwyddiadau hyn yn ei ysgolion?*

*Pa mor gadarn y mae'n adrodd am hyn i'r BLlDP ac aelodau etholedig?*

---

Mae'r Adran Addysg yn cyflwyno polisi cynnal ymddygiad enghreifftiol wedi ei selio ar arfer dda.

Mae'r polisi yn ystyried ystod o agweddau gwahanol gan gynnwys mynd i'r afael â gwrth-fwlio, cam-drin hiliol a gwahaniaethu ac aflonyddu.

Mae ystod o bolisïau eraill wedi eu rannu yn ogystal gan cynnwys polisïau gwrth fwlio, atal eithafiaeth a chydraddoldeb.

Mae'r ysgolion yn adolygu, addasu a mabwysiadau'r polisïau enghreifftiol er mwyn eu gwneud yn addas i sefyllfa'r ysgol.

Mae gan yr Awdurdod bolisïau cadarn ar lefel gorfforaethol er sicrhau ymddygiad priodol pob gweithiwr. Mae cynllun cydraddoldeb corfforaethol yn sicrhau fod gwaith yr Adran Addysg yn cyd-fynd a'r hyn a ddisgwylir o dan y ddeddf cydraddoldeb.

Mae'r awdurdod yn rhannu polisi cydraddoldeb a chynllun gweithredu enghreifftiol a phob ysgol. Disgwylir ir ysgolion rhoi ystyriaeth briodol ir ddwy ddogfen yma wrth lunio eu trefniadau .

- Polisi Gwrth fwlio
- Atal Eithafiaeth
- Ymddygiad
- Cydraddoldeb
- Cynllun cydraddoldeb

---

*Pa mor glir a chadarn yw polisi cymorth ymddygiad yr awdurdod lleol?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn monitro'r digwyddiadau hyn o ymyrraeth ac ataliaeth gorfforol yn ei ysgolion?*

*Pa mor gadarn y mae'n dadansoddi hyn ac a yw'n adrodd am hyn yn briodol i'r BLlDP ac aelodau etholedig?*

---

Mae'r awdurdod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Gwasanaeth ADYaCh i sefydlu a gweithredu trefniadau cadarn i gynnal disgyblion sy'n cael hi'n anodd i hunan reoli ac ymgysylltu gydag addysg.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ysgolion drwy gynnig amrywiaeth o strategaethau cymorth ymddygiad ar gyfer ysgolion. Mae tîm penodol o fewn yr awdurdod yn cynnig cefnogaeth i ysgolion drwy athrawon arbenigol yn y maes cynnal ymddygiad sydd yn cynnig cyngor, arweiniad a mewnbwn cymhorthydd ymyrraeth gynnar. Mae'r awdurdod yn monitro'r gefnogaeth yma drwy fforymau misol.

Mae polisi cynnal ymddygiad yr Awdurdod yn un cynhwysfawr ac sydd yn cyfeirio tuag at y gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion o fewn addysg prif-lif neu sydd yn derbyn eu haddysg mewn canolfannau pwrpasol.

Mae'r awdurdod yn gweithredu ar bolisi gwaharddiadau Llywodraeth Cymru a chyda swyddog lles cynhwysiad penodol i gynghori a monitro gwaharddiadau'r ysgolion. Mae yn ofynnol i bob ysgol adrodd ar eu gwaharddiadau yn dilyn pob digwyddiad.

Mae'r awdurdod yn monitro digwyddiadau o ymddygiadau heriol ac achosion o ataliaeth gorfforol yn gyson. Mae trefniadau adrodd cadarn mewn lle er gallu adnabod yn fuan achosion o bryder ac i gynnig cefnogaeth gyflym. I ysgolion sydd â disgyblion yn agored i'r Tîm Cynhwysiad bydd hyfforddiant deuddydd Pivotal MAPA yn cael ei gynnig fel rhan o'r pecyn cefnogaeth .

Mae yn hyfforddiant sydd ar raglen waith parhaus y gwasanaeth.

Fel rhan o'r pecyn cefnogaeth mae ymweliadau dilynol yn cael eu trefnu er mwyn sicrhau fod cefnogaeth i ysgolion gymhwyso'r strategaethau yn eu hymwneud a'r disgyblion a'u rhieni.

Mae'r pecyn yn cynnwys taflen ymateb mewn argyfwng er mwyn hysbysu holl staff sydd yn cefnogi'r disgyblion. Staff cynhwysiad yn arwain ar lunio'r daflen yn y lle cyntaf, gan arwain ysgolion drwy'r broses.

Mae'r hyfforddiant yn paratoi ysgolion i gynnal trafodaeth ac adlewyrchu ar ddigwyddiadau penodol a chytuno beth ellid ei wneud yn wahanol tro nesaf.

Fel rhan o'r gefnogaeth cynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd fyddai'n cyfeirio at yr angen posib i gwblhau ffurflenni HS11 a ffurflen defnydd o ymyrraeth gorfforol.

Rhoddir ffocws ar gynllunio rhagweithiol a chadarnhaol sef neges greiddiol yr hyfforddiant yn hytrach na bod yn ymatebol.

Mae data gwaharddiadau ysgolion yn rhan o gyfundrefn herio perfformiad yr awdurdod ac mae'n derbyn sylw ar sail risg.

- Ymddygiad
- Grym Rhesymol

---

*Pa mor glir a chadarn yw arweiniad yr awdurdod lleol ar iechyd a diogelwch a gweithgareddau oddi ar y safle, a'i bolisi ar gyfer asesiadau risg?*

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â chymorth cyntaf, camddefnyddio cyffuriau a sylweddau, addysg rhyw a pherthnasoedd, ymweliadau addysgol, diogelwch ar y rhyngrwyd a lles dysgwyr ar leoliadau galwedigaethol estynedig, yn ei ysgolion ac mewn darpariaeth addysg arall?*

Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Ymweliadau Addysg yn darparu canllawiau priodol a chyfredol i ysgolion mewn perthynas ag ymweliadau ag ysgolion.

Darperir hyfforddiant rheolaidd i ysgolion ar ddeall canllawiau a rheoli ymweliadau addysgol er mwyn gwneud y mwyaf o ddysgu yn yr awyr agored.

Mae'r Ymgynghorydd Ymweliadau Addysgol yn gweithio ar lefel strategol er mwyn annog ysgolion i ymgorffori Dysgu yn yr Awyr Agored yn eu cwricwlwm ysgol, yn ogystal ag asesu risg/buddion ymweliadau addysgol.

Darperir sesiynau hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgol ar ymweliadau addysgol. Maent yn gallu cael mynediad at safle Evolve yr ysgol i weld ymweliadau cyfredol ac felly mae angen lefel uwch o ddealltwriaeth arnynt.

Mae’r Gwasanaeth Cynghori ar Ymweliadau Addysg wedi bod yn blaenoriaethu’r canlynol;

- datblygu polisïau ac arferion i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r argyfwng iechyd presennol.
- datblygu'r fframwaith a chanllawiau a hyfforddiant ymweliadau addysgol gan ffocysu ar gynllunio ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.
- datblygu gwaith partneriaethol gyda’r gwasanaethau Yswiriant a Chyfreithiol.
- datblygu strwythur sylfaenol i ysgolion sy'n cynnal ymweliadau addysgol, gan ddiffinio llwybr clir i uwch arweinwyr mewn ysgolion ac uwch arweinwyr mewn ALlau.
- sicrhau cytundebau gwydn rhwng y sefydliad sy'n trefnu'r ymweliad a'r darparwr.

Cyfrifoldeb yr ysgol gyda chymorth proffesiynol gan eu ALl yw:

- Bod yn glir ynghylch beth fydd yn digwydd os caiff ymweliad ei ganslo neu ei gwtogi.
- Sefydlu a yw eu gallu i dalu am ymweliad yn dibynnu ar daliadau gan rieni neu gyfranogwyr.
- Sicrhau bod y telerau talu a chanslo y cytunwyd arnynt yn cyfateb i delerau'r darparwr.

Mae cefnogaeth gyson o ansawdd uchel ar gael i bob ysgol ac yn enwedig yn ystod cyfnod y pandemig.

Yn ystod cyfnod y pandemig bu i’r Adran iechyd a Diogelwch, mewn cydweithrediad a’r Adran Addysg cefnogi gyda’r gwaith sylweddol o wirio asesiadau risg ysgolion wrth i sefyllfa esblygu. Yn ychwanegol bu i’r gwasanaeth iechyd a diogelwch gynnal ymweliadau safle rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd fod trefniadau priodol mewn lle a rhoi tawelwch meddwl i weithlu ysgolion.

Mae’r Adran Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod yn cydweithio’n effeithiol a’r Adran Addysg a’r tîm Iechyd a Diogelwch er mwyn darparu arweiniad clir a chefnogaeth gref i’n hysgolion.

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn cael ei adrodd gan ysgolion i’r Adran Addysg a’r tîm Iechyd a Diogelwch yn unol â threfn gytunedig. Mae digwyddiadau yn cael ei dadansoddi gan y tîm Iechyd a Diogelwch, ac os yn briodol mae’r gwersi a ddysgwyd yn cael ei rhannu efo’r ysgolion mewn cydweithrediad a’r Adran Addysg.

Mae’r trefniadau Diogelu a threfniadau Iechyd a Diogelwch ar gyfer holl weithgareddau oddi ar y safle mewn ysgolion yn gadarn. Dilynir gweithdrefnau Evolve gan bob ysgol.

Mae’r Adran Addysg yn trefnu sesiynau hyfforddiant rheolaidd gyda’r Ymgynghorydd Ymweliadau Addysg, ac yn gwirio bod pob ysgol yn gweithredu’n llawn.

Dilynir yr un drefn gan y Gwasanaeth Ieuenctid, gan adnewyddu hyfforddiant yn unol â gofynion yr Ymgynghorydd Rhanbarthol.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw trefnu hyfforddiant Cymorth Cyntaf priodol ar bob lefel. Mae’r Cyngor yn sicrhau fod darparwyr ar gael i ddiwallu anghenion hyfforddi.

Mae Cymorth Cyntaf yn rhan o raglen hyfforddiant mandadol bob gweithiwr ieuenctid ar gylchdro adnewyddol bob tair blynedd.

Mae’r Cynllun Ysgolion Iach yn cynnig templed polisi rhanbarthol ar gyfer ysgolion cynradd ar sut i ymateb i gamddefnyddio sylweddau .

Mae Polisi Cenedlaethol Di-fwg wedi ei gymeradwyo i’r holl ysgolion.

Mae Polisi ymateb i gam ddefnyddio sylweddau enghreifftiol yn cael ei rannu’n flynyddol.

- Cymorth Cyntaf / First Aid
- Alcohol a chyffuriau / Drugs and Alcohol
- Iechyd a Diogelwch- Cynradd / Health and safety- primary

- Iechyd a Diogelwch – Uwchradd/ Health and safety – Secondary
- Cloi mewn argyfwng /Lockdown
- Ymweliadau Addysgol / Educational visits

---

*Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth wrth arfer ei swyddogaethau, i roi "ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth"*

---

Defnyddir deunyddiau e-ddysgu safonol i hyfforddi yn y maes ar draws yr awdurdod.

Mae hyfforddiant Diogelu ar bob lefel yn rhoi sylw priodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth ac mae prosesau cyfeirio'n glir ym mholisi Atal corfforaethol.

- Polisi Atal / Prevent Policy